

MAPIO CYMUNEDOL SAIN TATHAN



1/6/2016

Adroddiad Ymrwymo

Bu'r gweithgareddau mapio cymunedol yn mynd rhagddynt ym misoedd Chwefror a Mai 2016. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys arolwg cymunedol, sesiynau galw i mewn a grwpiau ffocws. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion y gweithgareddau ac yn crynhoi'r canfyddiadau.

Cynnwys

1. Introduction..... **Error! Bookmark not defined.**
2. Community Mapping in St Athan **Error! Bookmark not defined.**
3. Community Engagement **Error! Bookmark not defined.**
 - i. Focus Group Exercises..... **Error! Bookmark not defined.**
 - ii. Community Survey..... **Error! Bookmark not defined.**
 - iii. Drop in Sessions **Error! Bookmark not defined.**
4. Summary **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 1: Improve the public transport..... **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 2: Lack of Children’s Activities..... **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 3: Poor Play Areas **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 4: Safer walking environment..... **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 5: Improving service provision **Error! Bookmark not defined.**
 - Issue 6: Lack of communication..... **Error! Bookmark not defined.**

MAPIO CYMUNEDOL SAIN TATHAN

ADRODDIAD YMRWYMO

1. Cyflwyniad

Caiff Project Peilot Mapio Cymunedol Sain Tathan ei ariannu dan raglen LEADER Cyngor Bro Morgannwg, rhaglen â chyllid Ewropeaidd i gyflawni adfywio gwledig drwy ddatblygu syniadau arloesol all greu buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor i'r Fro wledig. Un o'r themâu dan y cynllun adfywio ydy helpu i gymunedau esblygu trwy archwilio ffyrdd newydd o gynig gwasanaethau, cyfleusterau, gweithgareddau a rhwydweithiau.

Nod Project Prawf Mapio Cymunedol yn Sain Tathan oedd canfod ffyrdd newydd o ymrwymo pobl mewn modd cadarnhaol i adnabod asedau ac anghenion y gymuned. Roedd y project yn ceisio ennill dealltwriaeth ddwys o gymuned Sain Tathan trwy weithio â phreswylwyr lleol, rhanddeiliaid a busnesau er mwyn archwilio agweddau cadarnhaol yr ardal a mapio'r asedau corfforol a'r perthnasau cymdeithasol yn y gymuned.

2. Mapio cymunedol Sain Tathan

Dewiswyd Sain Tathan fel ardal brawf oherwydd y teimlai'r Grŵp Gweithredu Lleol fod y gymuned wedi llawn fanteisio ar arian a gafwyd gan ffynonellau allanol yn y gorffennol a chan ei bod yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y Fro wledig. Teimlai'r Grŵp Gweithredu fod yr ymarfer hwn yn un amserol yn Sain Tathan gan fod yr ardal yn newid yn sgil datblygiadau tai newydd a'r Ardal Fenter, sy'n dod â chyfleoedd newydd e.e. ffatri Aston Martin.

Yn Sain Tathan, nid oedd unrhyw grŵp yn benodol yn llywio'r project ond yr adborth gan y gymuned oedd mai Sain Tathan ydy'r pentref a aeth yn angof lle nad oes unrhyw beth yn digwydd. Cyfleodd y project y cyfle i newid agwedd pobl a gwneud i bethau ddigwydd.

3. Ymgysylltu Cymunedol

Y man cychwyn ym mis Rhagfyr 2015 oedd llunio rhwydwaith o bobl a oedd yn weithredol yn Sain Tathan er mwyn darganfod pa bethau a oedd yn digwydd ym mhle, pa wasanaethau / gweithgareddau a oedd ar gael a pha bethau roedd y gymuned yn teimlo y byddai arni eu hangen yn y dyfodol. Cynhaliwyd bron i hanner can cyfarfod gydag aelodau'r gymuned a rhanddeiliad er mwyn ennill dealltwriaeth o'r ardal. Fel pobl a ddeuai o'r tu allan, bu'r ymarferion hyn yn ddefnyddiol er mwyn meithrin perthnasau cryfach yn y gymuned.

Er mwyn cael adborth cymuned ehangach, defnyddiwyd tri gwahanol ddull:

- Grwpiau Ffocws

- Sesiynau Galw Heibio
- Arolwg Cymunedol Sain Tathan

i. Ymarferion Grŵp Ffocws

Bu cyfres o weithgareddau ymgysylltu cymunedol penodol lle cynhaliwyd ystod o weithgareddau gyda phreswylwyr yn yr ardal. Bu cyfanswm o 12 Ymarfer Grŵp Ffocws rhwng mis Chwefror a mis Mai 2016 yn ymgysylltu â thros 230 o bobl. Dylid deall yr aeth nifer o bobl ar y cyrsiau yn Sain Tathan nad oeddynt yn byw yno.



Trefnwyr gweithgareddau a fu'n hyrwyddo'r Mapio Cymunedol gan fwyaf, ac eithrio Caffi Crefft Hanner Tymor a hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Er mai sgysiau cyffredinol gyda chyfranogwyr oedd llawer o'r ymgysylltu, mewn rhai achosion, defnyddiwyd gwahanol ddulliau o fapio cymunedol er mwyn cael adborth.

Roedd ymarferion y grŵp ffocws yn cynnwys y canlynol:

Cyfarfod	Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Cynulleidfa Darged	Ymarfer mapio cymunedol	Adborth allweddol
Caffi Crefft Hanner Tymor	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Dydd Llun 15/02/2016 10am tan 12am	Teuluoedd	Coeden Freuddwydion	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o gaffis • Gwella'r parciau chwarae • Rhagor o siopau
Grŵp sgwrs a gwau	Canolfan Gymunedol Hen Neuadd yr Ysgol, Sain Tathan	Dydd Llun 14/3/2016 2 tan 4pm	Merched	Sgwrs Gyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella trafndiaeth gyhoeddus • Arhosfan trenau • Awrygylch diogel i gerdded
Grŵp Rhieni Rhoi	Ysgol Gynradd Sain Tathan	Dydd Mawrth 15/03/2016	Rhieni plant ysgol gynradd	Gartref mae 'nghalon,	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella trafndiaeth gyhoeddus

MAPIO CYMUNEDOL SAIN TATHAN

Teuluoedd Yn Gyntaf		Gorffennaf 9am tan 11am		gartref mae 'nghân	<ul style="list-style-type: none"> • Awyrgylch diogel i gerdded • Gwella'r parciau chwarae • Rhagor o weithgareddau i blant o oed ysgol • Rhagor o wasanaethau gofal plant
Grŵp Mamau a Babanod	Canolfan Gymunedol Gwersyll y Gorllewin	Dydd Iau 17/03/2016 10am tan 11.30am	Rhieni plant 0- 3 oed	Gartref mae 'nghalon, gartref mae 'nghân! - Sgyrsiau cyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Awyrgylch diogel i gerdded • Gwella'r parciau chwarae • Rhagor o weithgareddau i blant o oed ysgol • Rhagor o wasanaethau gofal plant
50 Dosbarth Ymarfer Corff "Extend"	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Dydd Mawrth 22/3/2016 2:00 – 3:30pm	50+	Siartiau fflip a chwestiynau: Beth maent yn hoffi am Sain Tathan? Pa wasanaethau maent yn eu defnyddio? Beth hoffent ei weld yn y dyfodol?	<ul style="list-style-type: none"> • Gorsaf drenau • Rhagor o gaffis • Rhagor o siopau • Mwy o ddiwyddiadau cymunedol
Clwb dros 50 – Sesiwn Bingo	Hen Neuadd yr Ysgol, Sain Tathan	Dydd Iau: 24/3/16 - 1.30pm - 3pm	50+	Bingo Cymunedol / Sgyrsiau Cyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o gaffis • Rhagor o weithgareddau cymunedol
Sesiwn y Brownies, The Gathering Place	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Nos Lun 18 Ebrill 5.30 - 6:45pm	7-10 oed	Mapiau'r Corff a Ble rydych chi'n byw ar y map	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r parciau chwarae

Sesiwn y Guides, The Gathering Place	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Nos Lun 18 Ebrill 5.45 - 7.15pm	10-14 oed	Bingo Cymunedol, Ble rydych chi'n byw ar y map a mapio heb fap	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r parciau chwarae
Dysgu a Chwarae	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Dydd Llun 25 Ebrill 9.30 – 11.00am	Mamau â babis/plant dan 5 oed	Sgwrs Gyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo gweithgareddau yn well • Rhagor o weithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol • Rhagor o gaffis
Galw i Mewn a Chwarae	The Gathering Place, Dwyrain y Fro	Dydd Mercher 29 Ebrill ac 11 Mai 1.00 tan 2.00pm.	Mamau â babis/plant dan 5 oed	Sgwrs Gyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella trafndiaeth gyhoeddus • Gwella gofal plant • Rhagor o weithgareddau i blant • Gwella'r parciau chwarae
Gwasanaet hau leuencid VPOD	Y tu allan i'r Ganolfan Gymunedol	Nos Iau 19 Mai 6pm - 8pm	Pobl ifanc yr ardal	Sgyrsiau cyffredinol gyda phobl ifanc am y VPOD	<ul style="list-style-type: none"> • Parciau glanach, mwy a gwell • Rhagor o bethau yn y ganolfan gymunedol e.e. Celf a chrefft
Bingo	Canolfan Gymunedol Sain Tathan, Glyndwr Avenue	Nos Iau 19 Mai 7pm - 8pm	Pob oedran ond dros 55 ar y cyfan	Sgwrs Gyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o weithgareddau i blant • Gwella trafndiaeth gyhoeddus • Gwasanaethau newydd • Gwella'r parciau chwarae • Rhagor o siopau

Roedd y grwpiau ffocws yn ffordd wych o gael adborth gan y rhai sydd eisoes yn ymwneud â gweithgareddau yn y gymuned. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg cynifer o bobl a fyddai'n barod i deithio a mynd allan o'r ardal er mwyn cael defnyddio gwasanaethau eu dewis.

ii. Arolwg Barn y Gymuned

Er mwyn sicrhau bod cymuned ehangach Sain Tathan yn cael cyfle i wneud sylwadau, cynhyrchwyd arolwg cymunedol. Roedd yr arolwg ar agor o ddydd Llun 25 Ebrill 2016 tan 6 Mehefin 2016. Gosodwyd posteri trwy'r ward er mwyn hysbysebu'r digwyddiadau galw i mewn a'r arolwg barn. Cafodd pob busnes a darparwr gwasanaeth daflenni gwybodaeth i'w rhoi i aelodau'r cyhoedd.

Dosbarthwyd taflen arall ym mhob eiddo yn Ward Sain Tathan (yn cynnwys cymunedau Eglwys Brewis, East Camp / Dwyrain y Fro, Pentref Sain Tathan, Silstwn, Gorllewin Aberddawan a Trefflemin) ac West Camp yn fuan ym mis Mai yn hysbysebu'r arolwg barn a sesiwn galw i mewn arall yn y llyfrgell a'r ganolfan gymunedol ym Mhentref Sain Tathan ddydd Iau 19 Mai 2016.

Anogwyd y cyhoedd i gwblhau arolwg ar-lein; fodd bynnag, roedd copïau papur a blychau dychwelyd yn Swyddfa'r Post, The Gathering Place, The Hive a'r llyfrgell.

Cwblhawyd 214 arolwg gan aelodau'r gymuned. Cwblhawyd dros draean o'r arolygon yn ystod wythnos gyntaf yr arolwg a chafwyd ton arall yn dilyn dosbarthu'r taflenni i bob eiddo. Yn ogystal, mewnbynnwyd tua 45 copi electronig ar ddiwedd cyfnod yr arolwg. Roedd cyfieithiad Cymraeg o'r arolwg; fodd bynnag yn anffodus ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn Gymraeg.

CRYNODEB O'R YMATEBION

Amdanoch Chi

Roedd dros 90% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn byw yn Sain Tathan a'r mwyafrif (55%) yn byw ym mhentref Sain Tathan. Ni chafwyd ymatebion gan breswylwyr Gorllewin Aberddawan.

Ymhlith yr ymatebwyr, doedd traean ddim yn gweithio ac roedd 25% yn gweithio'n lleol, o fewn 5 milltir. 3% yn unig a oedd yn cymudo dros 20 milltir. O ran oedran, roedd 75% rhwng 25 a 70 (ac roedd y gyfradd yn gyfartal ym mhob grŵp oedran – 25 – 39, 40 - 55 a 56 – 76). Dim ond 4% oedd dan 16 oed.

Ynglŷn â'r Gymdogaeth

O ran byw yn Sain Tathan, mae 85% yn hoffi byw yn yr ardal yn iawn neu'n eithaf hoffi byw yno, a dim ond 2% sydd ddim yn hoffi byw yno. Roedd teimladau cymysg am yr ysbryd cymunedol gyda 60% yn mynegi barn gadarnhaol ar yr ysbryd cymunedol a 40% yn mynegi barn negyddol. Roedd dros 40% yn adnabod 1 – 5 cymydog, 5% yn unig nad oedd yn adnabod eu cymydogion ac roedd 20% yn adnabod dros 20 cymydog. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ardal gyda llai na 7% yn teimlo'n anniogel neu'n gwbl anniogel.

Gofynnwyd i ymatebwyr ofyn cwestiwn agored am yr hyn roeddent yn ei hoffi fwyaf am eu cymdogaeth. Mae crynodeb o'r adborth yn y tabl isod.

Hoffi	Nifer yr ymatebwyr
Tawel	58
Cymuned / Awyrgylch Gyfeillgar	36
Cyfeillion / Teulu / Cymdogion	32
Deniadol / Cefn Gwlad / Gwledig	29
Diogel	18
Siopau	5
The Gathering Place	4
Lleoliad canolog i adnoddau eraill	4
Dim	3

Gwasanaethau yn Sain Tathan

Roedd barn yr ymatebwyr ar y gwasanaethau / cyfleusterau yn amrywio o rhwng y canlynol: ardderchog a da, boddhaol a gwael a gwael iawn fel y gwelir yn y tabl isod:

Ardderchog / Da	Boddhaol	Gwael / Gwael iawn
Canolfannau Cymunedol	Llyfrgell	Mannau chwarae a pharciau
Ysgolion	Siopau	Gweithgareddau plant
Meddygon	Tecawês a Thafarndai	Gwasanaeth Chwaraeon
		Cyfleoedd hyfforddi
		Trafnidiaeth Gyhoeddus
		Clybiau Lleol

Roedd y sylwadau cyffredinol am ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau yn cynnwys bod angen rhagor o gyfleusterau oherwydd bod y gwasanaeth presennol yn wael iawn, bod angen rhagor o weithgareddau i blant, bod angen gwella trafndiaeth gyhoeddus a gorsaf drenau a bod angen gwella manau chwarae a pharciau (am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Atodiad 5).

Mae'n ddiddorol nodi er bod llawer o ymatebwyr wedi trafod yr ystod o wasanaethau / cyfleusterau sydd ar gael, nid oedd llawer yn eu defnyddio. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, roeddent yn defnyddio'r ysgol naill ai'n ddyddiol neu fyth.

Mwy nag unwaith yr wythnos	Misol	Ddim o gwbl neu fyth
Ysgolion	Meddygon	Mannau chwarae a pharciau
Siopau	Trafnidiaeth Gyhoeddus	Canolfannau Cymunedol

	Tecawês a Thafarndai	Gweithgareddau plant
		Gwasanaeth Chwaraeon
		Ysgol
		Llyfrgell
		Cyfleoedd hyfforddi
		Clybiau Lleol

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn agored a oedd yn holi pam nad oeddent yn defnyddio'r cyfleusterau yn Sain Tathan yn cynnwys: does dim yma, angen parc, gorsaf ac archfarchnad newydd a thrafnidiaeth gyhoeddus well.

O'r rhai sy'n ymateb i'r cwestiwn am y gwasanaethau y gallant eu defnyddio'r tu allan i Sain Tathan, dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau canlynol: siopau, tafarndai, bwytaï, campfeydd, manau chwarae, deintyddion a banciau.

55% yn unig o ymatebwyr atebodd y cwestiwn agored yn holi pa weithgareddau yr hoffent eu gweld yn Sain Tathan. Roedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd yn cynnwys rhagor o weithgareddau a chlybiau chwaraeon, rhagor o weithgareddau a chlybiau i blant a manau chwarae gwell.

Technoleg Ddigidol

O ran technoleg ddigidol, roedd gan dros 90% o ymatebwyr fynediad at gyfrifiadur / llechen gartref, mynediad i'r rhyngwyd, cyfeiriad e-bost a ffôn symudol, roedd dros 80% yn defnyddio bancio a siopa ar-lein, fodd bynnag 50% yn unig a allai ddefnyddio tudalen Facebook Hyb Sain Tathan. Dim ond 3% oedd heb yr un o'r uchod.

Cafodd y cwestiwn yn ymwneud â rhwystrau o ran cael mynediad at dechnoleg ddigidol gyfradd ymateb wael gyda dim ond 25% o ymatebwyr yn ateb y cwestiwn. O'r ymatebwyr hynny, bu i 60% nodi bod eu cysylltiad at y rhyngwyd yn wael a dywedodd 20% mai hyder wrth ddefnyddio llechen oedd y rheswm. O'r 80% o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn a holai a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu sesiwn Galw Heibio Digidol, mynegodd traean ddiddordeb.

Dyfodol Sain Tathan

60% yn unig o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn agored a oedd yn holi beth hoffent ei wella fwyaf yn eu cymdogaeth. Mae manylion yr ymatebion yn Atodiad 9. Dyma oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd:

- **Gwella trafndiaeth gyhoeddus** fel ei bod yn fwy dibynadwy, yn arbennig o ran cynnig gwasanaeth mwy rheolaidd a chysylltu'n well â gwasanaeth trên Llanilltud Fawr, gwella'r gwasanaeth cymudo i Gaerdydd a chynnig gwasanaeth o Sain Tathan i'r Bont-Faen.
- **Rhoi arhosfa drên yn Silstwn**
- **Gostwng cyflymder y traffig a gwella'r amgylchedd i gerddwyr** – roedd y sylwadau'n cynnwys gostwng cyflymder y traffig trwy'r pentref ac yn y groesfan lle mae'r gofeb, awgrymu mesurau arafu traffig a gwella'r croesfannau i gerddwyr.
- **Rhagor o weithgareddau i blant**
- **Heddlua gwell**
- **Mwy o ddigwyddiadau cymunedol**

Roedd tua 60% o'r ymatebwyr yn meddwl bod dyfodol Sain Tathan yn ddisglair. Mae'r gymuned yn awyddus i weld newidiadau a chamau gweithredu yn yr ardal. Rhoddodd tuag ugain ymatebwr eu manylion cyswllt gan ddweud yr hoffent ymwneud yn rhagor.

iii. Sesiynau Galw Heibio

Trefnwyd tair sesiwn galw heibio yn Sain Tathan a gwahoddwyd preswylwyr i alw am sgwrs am Sain Tathan gyda swyddogion a gwirfoddolwyr. Dyma pryd a lle y'u cynhaliwyd:

- Dydd Llun 25 Ebrill 2016 o 9am tan 8pm, the Gathering Place, Dwyrain y Fro
- Dydd Mercher 27 Ebrill 2016 o 9am tan 8pm, the Gathering Place, Dwyrain y Fro
- Dydd Iau 19 Mai 2016, 2pm tan 6pm, Llyfrgell Sain Tathan / 6pm – 7:30pm, Canolfan Gymunedol Sain Tathan

Hysbysebwyd y ddau ddigwyddiad ym mis Ebrill trwy roi posteri trwy'r gymuned ac mewn prif leoliadau busnes / cymunedol, trwy ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Bu ymgyrch ddanfôn taflenni ehangach yn Sain Tathan er mwyn hysbysebu'r sesiwn galw heibio olaf ym mis Mai.

Roedd cyntedd y *Gathering Place* yn lle da i gynnal y sesiynau galw heibio oherwydd y gallai'r tîm siarad â phobl a oedd yn mynd ac yn dod o wneud gweithgareddau yn y ganolfan. Bu'n anodd cael pawb i gofrestru felly mae'r nifer a gofnodwyd yn is na nifer y rhai y siaradom â nhw. Roedd y rhan fwyaf yn dod i'r adeilad p'run bynnag, yn hytrach nag yn galw heibio'n benodol er mwyn trafod y project mapio cymunedol.

5 person a aeth i'r sesiwn yn y llyfrgell a'r rhan fwyaf wedi gweld y daflen ac wedi dod i drafod eu barn am Sain Tathan. Ni ddaeth unrhyw aelod o'r cyhoedd i'r Ganolfan Gymunedol, fodd bynnag, bu trafodaethau â'r rhai a oedd yno ar gyfer y Bingo.

Roedd y byrddau arddangos yn cyflwyno tri chwestiwn er mwyn sbarduno trafodaeth:

- Beth rydych chi'n ei hoffi am Sain Tathan?
- Pa wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio yn / y tu allan i Sain Tathan?
- Beth yw eich gobeithion / dyheadau ar gyfer y dyfodol?

Roedd llawer o bobl yn hoffi byw yn Sain Tathan oherwydd bod y pentref yn wledig, tawel ac oherwydd yr ymdeimlad cymunedol / teulu / cyfeillion sydd yno. Maent yn defnyddio ystod o wasanaethau yn cynnwys y siopau / swyddfa'r post lleol, parciau, doctoriaid a grwpiau mam a baban; fodd bynnag maent yn teithio ymhellach i wneud neges / siopau dillad, canolfannau hamdden / campfeydd / pyllau nofio, mynd i feysydd chwarae / parciau mwy ac ar gyfer adloniant megis tafarndai, sinemâu, bowlio a chwarae meddal.

Y prif broblemau a drafodwyd oedd:

- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwella'r gwasanaethau i blant
- Parc chwarae newydd
- Cynnig gwasanaethau newydd
- Rhagor o ddigwyddiadau cymunedol
- Mwy o heddlu cymunedol

- Newid yn agwedd pobl

4. Crynodeb

Bu'r broses Mapio Cymunedol yn werthfawr iawn er mwyn derbyn adborth gan y gymuned ond yn bwysicach fyth er mwyn meithrin perthnasau er mwyn cynorthwyo preswylwyr i gymryd camau gweithredu a gwneud newidiadau.

Roedd chwe thema'n codi'n gyson fel problemau yn y grwpiau ffocws, sesiynau galw heibio a thrwy'r arolwg cymunedol, sef:

Problem 1: Gwella'r drafnidiaeth gyhoeddus

- Gwasanaethau bws yn cydlynu'n wael â threnau yn Llanilltud Fawr
- Dim bysus yn cymudo'n fuan i Gaerdydd
- Dim gwasanaeth bws i'r Bont-faen
- Angen ailosod yr orsaf / arhosfa drenau yn y pentref

Problem 2: Diffyg Gweithgareddau i Blant

- Yn arbennig plant oedran ysgol: 5 i 16 oed;
- Dim clwb chwaraeon e.e. Pêl-droed
- Dim clwb ieuentid

Problem 3: Mannau Chwarae Gwael

- Yn arbennig, mae'r buddsoddiad i Fan Chwarae Sain Tathan gan y Ganolfan Gymunedol, Glyndŵr Avenue yn wael

Problem 4: Amgylchedd diogelach i gerddwyr

- Mae traffig yn gyrru'n gyflym trwy'r pentref
- Mannau croesi diogelach
- Ymyl palmentydd is

Problem 5: Gwella darpariaeth gwasanaeth

- Caffi newydd
- Rhagor o siopau
- Estyn oriau agor y feddygfa
- Dod â deintydd i'r pentref
- Cynnig rhagor o weithgareddau i oedolion, yn arbennig gweithgareddau chwaraeon
- Rhagor o ddigwyddiadau cymunedol
- Heddlua gwell

Problem 6: Diffyg cyfathrebu

- Diffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn Sain Tathan